Ymgysylltu â ‘Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau’ drafft

Rydym yn ceisio eich barn ar ein Rheolau drafft o ran Ceisiadau ar gyfer Dynodi Cymwysterau. Rydym yn hefyd yn gofyn i chi ystyried crynodeb o'r materion rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein polisi a fydd yn llywio ein penderfyniad i ddynodi cymhwyster.

Ceir y ddogfen ymgysylltu sy'n amlinellu'r crynodeb polisi a rheolau drafft, a'r cwestiynau ymgysylltu yma.

Byddem yn eich annog i ymateb i'r gweithgaredd ymgysylltu hwn drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yma

Fel arall, gallwch ymateb drwy e-bost neu drwy ofyn am gyfarfod dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Cysylltwch â recognitionandapproval@qualificationswales.org.

Rhaid anfon ymatebion i'r gweithgaredd ymgysylltu hwn erbyn 18:00 ar 12 Ionawr 2018

Gweithgaredd Ymgysylltu 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau' drafft

Cwestiynau ymgysylltu

Dyddiad Cyhoeddi: **Dydd Gwener 15 Rhagfyr 2017**

Camau sy'n Ofynnol: **Ymatebion erbyn 18:00, dydd Gwener 12 Ionawr 2018**

Trosolwg	Mae'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn cael ei gynnal i geisio eich barn ar y crynodeb o'r materion rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein polisi a fydd yn llywio ein penderfyniadau ddynodi. Mae'n debygol y bydd y gweithgaredd ymgysylltu hwn o ddiddordeb i gyrff dyfarnu yn bennaf, ond rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau sefydliadau neu unigolion eraill hefyd.
Sut i ymateb	Byddem yn eich annog i ymateb i'r gweithgaredd ymgysylltu hwn drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://www.smartsurvey.co.uk/s/Dynodi/ Gallwch hefyd ymateb drwy gwblhau'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, drwy anfon eich safbwyntiau drwy e-bost neu drwy ofyn am drafodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Cysylltwch â recognitionandapproval@qualificationswales.org. Rhaid anfon ymatebion i Cymwysterau Cymru erbyn 18:00 ar 12 Ionawr 2018. Mae crynodeb y polisi a rheolau drafft wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, yn ogystal â'r cwestiynau ymgysylltu. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn llywio fersiwn derfynol y Polisi a **'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau'.**
Rhagor o Wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Deddf Cymwysterau Cymru 2015 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh Polisi Apeliadau Rheoliadol – http://qualificationswales.org/media/1896/160625-v20-regulatory-appeals-policy-cym.pdf
Manylion cyswllt	Am ragor o wybodaeth: E-bost: recognitionandapproval@qualificationswales.org
Diogelu data	**Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a roddir gennych eu defnyddio** Byddwn yn dadansoddi ac yn ystyried yr holl ymatebion a dderbynnir i'r gweithgaredd ymgysylltu hwn. Byddant yn cael eu

defnyddio i lywio newidiadau a datblygiadau pellach i'r ddogfen Polisi Dynodi a Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau.

Ar ddiwedd yr holiadur, mae'r opsiwn i ddarparu manylion cyswllt fel y gallwn gysylltu â chi i gael eglurhad o'ch atebion. Caiff yr holl ddata a ddelir gennym eu cadw yn unol â Chyfraith Diogelu Data y DU. Byddant ond yn cael eu defnyddio at ddiben datblygu ac adolygu'r polisïau a ymgorfforir yn y gweithgaredd ymgysylltu hwn. Gall eich sylwadau gael eu defnyddio mewn dogfen gyhoeddedig. Fodd bynnag, ni chaff eich gwybodaeth gyswllt ei defnyddio.

Am ein bod yn gorff cyhoeddus, gellir ystyried yr holl ddeunydd ysgrifenedig a ddelir gennym, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a anfonwch atom, i'w ryddhau yn dilyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion prin pan fydd yn rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth hon. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ceisio eich hysbysu am y penderfyniad hwn.

Rhagarweiniad

Mae gwaith Cymwysterau Cymru yn seiliedig ar ddau brif nod:

- Sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Anelwn at sicrhau bod y gwaith a wnawn yn ystyried y pum egwyddor ar gyfer gwell rheoleiddio a luniwyd gan y Tasglu Gwell Rheoleiddio. Y rhain yw:

- Cymesuredd
- Atebolrwydd
- Cysondeb
- Tryloywder
- Targedu

Ein nod yw y bydd cyflawni'r ymarfer ymgysylltu hwn yn ein helpu i sicrhau bod y polisi a'r rheolau a gyflwynir yn bodloni'r egwyddorion hyn, ac felly yn gwella ansawdd ein prosesau dynodi.

Nid oes unrhyw newidadau o ran sylwedd ein gofynion ar gyrff dyfarnu, gan bod y gofynion oll unai o fewn ein Hamodau Cydnabod Safonol neu'n meini prawf dynodi cyfredol.

Cwestiynau Ymgysylltu

Cwestiynau Cyffredinol

1. A yw'r 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau' drafft yn rhoi eglurder am y wybodaeth sydd ei hangen ar Cymwysterau Cymru i allu ystyried cymhwyster i'w ddynodi?
[ ] Ydynt [ ] Nac ydynt
Os Nac ydynt, nodwch sut gellid gwella eglurder y wybodaeth yn eich barn chi:

2. A yw'r 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau' drafft yn rhoi eglurder am y broses y dylai cyrff dyfarnu ei dilyn er mwyn gwneud cais i'w cymhwyster gael ei ddynodi?
[ ] Ydynt [ ] Nac ydynt
Os Nac ydynt, nodwch sut gellid gwella eglurder y broses yn eich barn chi:

3. A yw'r 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau' drafft yn rhoi arweiniad clir ar y dystiolaeth ategol a gaiff ei derbyn ar gyfer dynodi gwahanol fathau o gymwysterau?
[ ] Ydynt [ ] Nac ydynt
Os Nac ydynt, nodwch sut gellid gwella'r arweiniad yn eich barn chi:

4. Ar ôl adolygu'r 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau' drafft, a oes unrhyw wybodaeth bellach a fyddai'n egluro'r broses ddynodi yn eich barn chi?
[ ] Oes [ ] Nac oes
Os Oes, nodwch pa wybodaeth bellach fyddai'n egluro'r broses ddynodi yn eich barn chi:

5.Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r 'Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau'. Defnyddiwch y gofod isod i nodi unrhyw sylwadau pellach.

6. A ydych yn cytuno â'r materion rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein polisi a fydd yn llywio ein penderfyniad i ddynodi math o gymhwyster?
[ ] Ydw [ ] Nac ydw
Os Nac ydw, esboniwch bellach yma:

Gwybodaeth Ychwanegol

A ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn?

[ ] Ar ran sefydliad

[ ] Unigolyn

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio eich sefydliad orau (os yw'n gymwys):

[ ] Corff dyfarnu

[ ] Darparwr addysg neu hyfforddiant

[ ] Arall (nodwch)

.....

Os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi i gael eglurhad o'ch ymatebion, nodwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn y gofod isod. Delir yr holl wybodaeth yn unol â Chyfraith Diogelu Data y DU a bydd ond yn cael ei defnyddio i geisio eglurhad o ymatebion. Ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw fanylion cyswllt o fewn ein hadroddiad cryno o'r gweithgaredd ymgysylltu hwn. Fodd bynnag, am ein bod yn gorff cyhoeddus, gellir ystyried yr holl ddeunydd ysgrifenedig a ddelir gennym i'w ryddhau yn dilyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gwybodaeth gyswllt

Enw: .....

Cyfeiriad E-bost: .....

Dogfen Reoleiddio
POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau

XXXXX 2017

Rheoli fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (1) hon o Reolau Cymwysterau Cymru am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ar xxxxxxxxxxxx 2017.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith bob tair blynedd a bydd y broses yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y rheolau a pha mor gyfredol yw'r ddogfen. Disgwylir iddi gael ei hadolygu nesaf erbyn xxxxxxxxxxxx 2020 fan bellaf. Croesewir adborth gan y cyhoedd ar y ddogfen reoleiddio hon yn y cyfamser. Dylech anfon eich sylwadau i ***policy@qualificationswales.org***

Egwyddorion Cyffredinol y Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gyrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n awyddus i wneud cais i Cymwysterau Cymru ddynodi ei gymhwyster. O dan adran 33 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i ni lunio rheolau ynghylch cyflwyno ceisiadau i ni mewn perthynas â dynodi cymwysterau.

Nod y rheolau hyn yw rhoi eglurder i gyrff dyfarnu cydnabyddedig ar y canlynol:

i) y wybodaeth y mae ei hangen ar Cymwysterau Cymru er mwyn gallu ystyried p'un a ellir dynodi cymhwyster.
ii) y broses ar gyfer gwneud cais i ddynodi ei gymhwyster.

Cyn gwneud cais, dylai cyrff dyfarnu ddarllen y ddogfen hon ar y cyd ag unrhyw ddogfennau cyhoeddedig o blith yr isod:

i) Polisi Dynodi

ii) Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol[1]

iii) Canllaw Dynodi Corff Dyfarnu QiW

Dim ond pan fydd corff dyfarnu yn fodlon nad yw'r cymhwyster ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ac nad yw Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi unrhyw feini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster ac nad yw wedi nodi y bydd yn ystyried ceisiadau i gymeradwyo'r cymhwyster hwn y dylai corff dyfarnu gyflwyno cymhwyster i'w ddynodi.

CYNNWYS

TYSTIOLAETH YN YMWNEUD Â'R MATERION A YSTYRIWN WRTH BENDERFYNU P'UN A DDYLID DYNODI CYMHWYSTER

Y BROSES AR GYFER GOFYN AM DDYNODIAD

DIWYGIADAU I GYMWYSTERAU DYNODI

ATODIAD A – CANLLAWIAU YCHWANEGOL AR GYFER TYSTIOLAETH ATEGOL

ATODIAD B – DATGANIAD GWRTHDARO BUDDIANNAU

TYSTIOLAETH YN YMWNEUD Â'R MATERION A YSTYRIWN WRTH BENDERFYNU P'UN A DDYLID DYNODI CYMHWYSTER

Mae'r polisi dynodi yn amlinellu pa faterion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid dynodi cymhwyster.

I fodloni ein hunain bod rhain wedi'u bodloni, dim ond pan fydd y canlynol yn gymwys y byddwn yn dynodi cymwysterau:

1. **Mae galw am y cymhwyster gan ymgeiswyr yng Nghymru yn yr ystod(au) oedran perthnasol [mae'r gofyniad hwn yn ymwneud ag Amodau Cydnabod Safonol E1.3 ac E1.4]**

   Yng nghyd-destun dynodi, rhaid i'r dystiolaeth o'r galw:

   i. Ddod o ganolfan a chael ei chyflwyno drwy e-bost neu lythyr, ac yn ddyddiedig o fewn y flwyddyn academaidd ddiwethaf
   ii. Cynnwys teitl llawn y cymhwyster
   iii. Dangos galw o'r ystod oedran isaf rydych yn gwneud cais dynodi ar ei chyfer. Gellir cyflwyno llythyrau o nifer o ganolfannau.
   iv. Nifer bosibl o ymgeiswyr - naill ai yn seiliedig ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol neu ffigurau cynllunio canolfan
   v. Esboniad byr ynghylch pam bod diddordeb ganddynt mewn cynnig y cymhwyster hwn

   Os bydd y cymhwyster sy'n cael ei gyflwyno yn disodli fersiwn gynharach o gymhwyster, (h.y. cymhwyster ar yr un lefel, yn yr un pwnc, sy'n targedu'r un fath o ddysgwyr at yr un diben) dylai'r corff dyfarnu nodi hyn wrth ei gyflwyno, yn ogystal â rhif yr hen gymhwyster. Caiff tystiolaeth o gofrestriadau ar gyfer y cymhwyster sy'n cael ei ddisodli ei derbyn fel tystiolaeth o alw yn lle'r opsiynau tystiolaeth a restrir uchod.

   Sylwer:
   - Nid oes angen i gyrff dyfarnu gyflwyno tystiolaeth yn erbyn y meini prawf hyn mewn perthynas â'r canlynol:
     - cymwysterau sydd wedi cael eu derbyn ar fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru
     - TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch

2. **Mae cefnogaeth gan ddefnyddwyr terfynol perthnasol neu randdeiliaid [mae'r gofyniad hwn yn ymwneud ag Amodau Cydnabod Safonol E1.3, E1.4 ac E1.5]**

Yng nghyd-destun dynodi, rhaid i'r dystiolaeth o gefnogaeth wneud y canlynol:

i. Bod yn gynrychioliadol ac ymwneud â'r diben bwriadedig a llwybr dilyniant y cymhwyster (gweler atodiad a)
ii. Cynnwys teitl llawn y cymhwyster
iii. Cynnwys yr ystod(au) oedran cymwys
iv. Cynnwys esboniad byr o pam fod cefnogaeth i'r cymhwyster hwn
v. Gall y gefnogaeth hon fod ar ffurf:

Naill ai lythyr wedi'i lofnodi gan aelod uwch o staff o gorff perthnasol ar bapur â phennawd neu e-bost o gwmni neu sefydliad, ac yn ddyddiedig o fewn y flwyddyn galendr ddiwethaf
NEU ddogfen gredadwy megis achos busnes mewnol sy'n cynnwys manylion ymgynghoriad â defnyddwyr terfynol perthnasol, neu gofnodion cyfarfod ymgynghori â defnyddwyr terfynol perthnasol
NEU ddisgrifiad o waith datblygu cymhwyster a gynhelir gan roi manylion gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol

Sylwer:
- Nid oes angen i gyrff dyfarnu gyflwyno tystiolaeth yn erbyn y meini prawf hyn mewn perthynas â'r canlynol:
    - cymwysterau sydd wedi cael eu derbyn ar fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru.
    - TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch
    - Cymwysterau Lefel Mynediad

- Os bydd Corff Dyfarnu yn gorff proffesiynol/diwydiant neu sector hefyd, ac mae'n dymuno cyflwyno cymorth o gangen y corff proffesiynol/diwydiant neu sector, rhaid iddo gwblhau a chyflwyno'r datganiad gwrthdaro buddiannau yn atodiad b.

- Os byddwch yn ceisio dynodi cymhwyster sy'n rhan o gyfres, ac rydych eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth o gefnogaeth mewn perthynas â chymhwyster perthnasol arall o fewn y gyfres, ni fydd angen i chi gyflwyno'r gefnogaeth eto, ond nodwch rif y cymhwyster perthnasol yn eich cyflwyniad

3. Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth, polisïau a sefydliadau o fewn y cymhwyster yn gymwys yng Nghymru [mae'r gofyniad hwn yn ymwneud ag Amod Cydnabod Safonol D1.1]

Efallai y caiff gofynion penodol sector neu swydd ychwanegol sy'n ymwneud â meysydd lle mae gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig eu nodi dros amser. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i gyrff

dyfarnu o gyflwyniad y gofynion penodol hyn a byddwn yn cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r canllaw hwn.

4. **Mae'r cymhwyster yn briodol ar gyfer yr ystodau oedran a ddewiswyd. Yn arbennig, os bydd y cymhwyster i'w ddynodi ar gyfer dysgwyr cyn 16 oed, ni ddylai'r cymhwyster dystio cymhwysedd galwedigaethol fel arfer [mae'r gofyniad hwn yn ymwneud ag Amod Cydnabod Safonol D1.1].**

Mae angen i'r corff dyfarnu wneud y canlynol:

i. Cadarnhau nad oes unrhyw broblemau iechyd a diogelwch oherwydd oedran y darpar fyfyrwyr
ii. Sicrhau nad yw cymwysterau ar gyfer myfyrwyr cyn 16 oed yn tystio cymhwysedd (ac ni chânt eu dosbarthu fel 'CVET')

5. **Gofynion ychwanegol ar gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch**

Dim ond os bydd y canlynol yn gymwys y byddwn yn ystyried dynodi cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch:

- Caiff y cymhwyster ei gynnig mewn pwnc lle nad oes unrhyw gymhwyster TGAU wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, neu bwnc lle nad oes unrhyw gymhwyster TAG wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru
- Os caiff y cymhwyster ei gynnig mewn pwnc lle nad yw Ofqual wedi cyhoeddi gofynion rheoleiddio sy'n benodol i'r pwnc, rhaid i'r cymhwyster:
    - Fod wedi cael ei achredu gan Ofqual
    - Cael ei gynnig yng Nghymru fel cymhwyster dynodedig yn yr un ffurf ag y caiff ei reoleiddio gan Ofqual
- Os caiff y cymhwyster ei gynnig mewn pwnc lle nad yw Ofqual wedi cyhoeddi gofynion rheoleiddio sy'n benodol i'r pwnc, rhaid i'r cymhwyster:
    - Gael ei gynnig mewn pwnc sydd wedi'i ddynodi eisoes gan Cymwysterau Cymru yn gymhwyster TGAU neu TAG
    - Cydymffurfio ag unrhyw ofynion rheoleiddio sydd wedi'u cynnwys ar Restr o Ddogfennau Rheoleiddio Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch i'w haddysgu gyntaf cyn y flwyddyn academaidd 2015/2016
- Rhaid i'r corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster sicrhau bod ganddo ddatganiad polisi cyhoeddedig bob amser sy'n egluro i ddefnyddwyr p'un a yw'r cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'r ddwy iaith.
- Rhaid i'r polisi egluro:
    - Ar ba sail y bydd y corff dyfarnu yn cynnig y cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg, os bydd yn dewis gwneud hynny

- Pa agweddau ar y cymhwyster, gan gynnwys deunyddiau ategol, a ddarperir gan y corff dyfarnu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltwch â ni os hoffech drafod tystiolaeth bosibl cyn cyflwyno cymhwyster i'w ddynodi.

Y BROSES AR GYFER GOFYN AM DDYNODIAD

Caiff pob cais dynodi ei gyflwyno i QiW, a byddwn hefyd yn rhoi ein hadborth ar QiW. Ceir gwybodaeth bellach ar QiW a manylion cyflwyno cymhwyster ar QiW yn [canllaw QiW]

Cyn cyflwyno cymhwyster i'w ddynodi, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y cymhwyster yn cydymffurfio â gofynion ei Amodau Cydnabod, gan wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw, yn unol ag Amod Cydnabod Safonol E5.1.

Rhaid i gyrff dyfarnu hefyd sicrhau bod eu cyflwyniad o'r cymhwyster i QiW yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen, a bod y wybodaeth yn gywir, yn unol ag Amod Cydnabod Safonol E6.2. Er mwyn i gymhwyster gael ei ystyried i'w ddynodi, mae QiW yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff Dyfarnu gyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud ag Amodau Cydnabod Safonol E1.2, E2.1, E3.1, E7.1, E9.1 a darparu tystiolaeth sy'n ymwneud ag Amodau Cydnabod Safonol E1.3, E1.4 a D1.1 fel yr amlinellir yn yr adran 'Tystiolaeth yn ymwneud â...'.

Yna byddwn yn gwirio bod y wybodaeth a gyflwynir yn deg ac yn gywir, ac efallai byddwn hefyd yn gwirio cydymffurfiaeth yn erbyn Amodau Safonol E1.1, E3.2.

Drwy QiW, byddwn yn rhoi gwybod i chi bod eich cymhwyster wedi'i ddynodi neu'n rhoi gwybod i chi pa un o'n gofynion nad yw wedi'i fodloni a pha dystiolaeth neu gamau gweithredu pellach sydd eu hangen gennych. Yna gallwch ailgyflwyno.

DIWYGIADAU I GYMWYSTERAU DYNODEDIG

Dylai cyrff dyfarnu adolygu eu cymwysterau cyn y Dyddiad Gorffen Gweithredol. Chwe mis cyn y Dyddiad Gorffen Gweithredol, bydd QiW yn anfon nodyn atgoffa wedi'i awtomeiddio i'r corff dyfarnu perthnasol yn nodi bod y dyddiad gorffen yn agosáu. Dylai hyn annog cyrff dyfarnu i ystyried a oes angen diwygio'r Dyddiad Gorffen Gweithredol.

Os bydd y Dyddiad Gorffen Gweithredol newydd o fewn pum mlynedd o ddyddiad dechrau'r cymhwyster, bydd dim ond rhaid i chi gwblhau'r Ffurflen Ddiwygio - ni fydd angen unrhyw dystiolaeth ategol bellach arnom.

Ar gyfer Dyddiadau Gorffen Gweithredol newydd sy'n fwy na phum mlynedd o ddyddiad dechrau'r cymhwyster, bydd angen tystiolaeth o gefnogaeth fel y rhestrir yn yr adran dystiolaeth uchod.

Atodiad a – canllawiau ychwanegol ar gyfer tystiolaeth ategol

Os bydd cymhwyster yn cwmpasu mwy nag un o'r categorïau isod, dewiswch y categori mwyaf perthnasol yn seiliedig ar brif ddiben y cymhwyster.

	Cefnogaeth Ofynnol **(Rhaid bod yr holl dystiolaeth wedi'i llofnodi a'i dyddio gan uwch reolwr perthnasol, a rhaid ei chyflwyno ar bapur â phennawd)**
Cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu pellach yn yr ysgol	Naill ai: - Llythyr gan gonsortiwm rhanbarthol neu ysgol yng Nghymru, yn canolbwyntio ar berthnasedd y cymhwyster ar gyfer astudio pellach NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan ysgolion yng Nghymru NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan ysgolion yng Nghymru Gallai'r dystiolaeth hon gwmpasu cefnogaeth a galw
Cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu pellach mewn Addysg Bellach	Naill ai: - Llythyr gan goleg Addysg Bellach yng Nghymru, yn canolbwyntio ar berthnasedd y cymhwyster ar gyfer astudio pellach NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan golegau Addysg Bellach yng Nghymru NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan golegau Addysg Bellach yng Nghymru Gallai'r dystiolaeth hon gwmpasu cefnogaeth a galw
Cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer Addysg Uwch	Naill ai: - Llythyr gan Sefydliad Addysg Uwch yn y DU NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU

	NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan Sefydliadau Addysg Uwch y DU
Cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu pellach gyda darparwr dysgu seiliedig ar waith neu ddarparwr hyfforddi	Naill ai: - Llythyr gan ddarparwr dysgu seiliedig ar waith neu ddarparwr hyfforddi NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan ddarparwr dysgu seiliedig ar waith neu ddarparwr hyfforddi NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan ddarparwr dysgu seiliedig ar waith neu ddarparwr hyfforddi
Cymwysterau sy'n: **- rhoi twf personol i ddysgwyr a'u hannog i ymgysylltu â'u dysgu**	Naill ai: - Llythyr gan ganolfan neu sefydliad perthnasol yng Nghymru, yn canolbwyntio ar berthnasedd y cymhwyster ar gyfer twf personol ac ymgysylltu â dysgu NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan ganolfan neu sefydliad perthnasol yng Nghymru NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan ganolfan neu sefydliad perthnasol yng Nghymru
Cymwysterau sy'n: - **Paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth** - **Cefnogi rôl yn y gweithle** - **Dangos cymhwysedd**	Naill ai: - Llythyr gan gorff proffesiynol/sector perthnasol sydd â chylch gwaith sy'n cwmpasu Cymru NEU

	- Llythyr gan Brif Swyddfa cyflogwr mawr/sylweddol perthnasol sy'n weithredol yng Nghymru NEU - Llythyrau gan o leiaf 3 cyflogwr llai perthnasol sy'n weithredol yng Nghymru NEU - Tystiolaeth o adolygiad cymhwyster diweddar sy'n dangos cefnogaeth gan unrhyw un o'r rhanddeiliaid a restrir uchod NEU - Cynllun busnes y cytunwyd arno neu gofnodion ffurfiol yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth gan unrhyw un o'r rhanddeiliaid a restrir uchod

Atodiad b – datganiad gwrthdaro buddiannau ar gyfer cyrff dyfarnu sydd hefyd yn gyrff proffesiynol sy'n cynnig cefnogaeth ar gyfer y cymhwyster

Os bydd corff dyfarnu yn cyflwyno cefnogaeth gan y gangen corff proffesiynol o'r un sefydliad, rhaid cwblhau a chyflwyno'r datganiad canlynol, y mae'n rhaid i uwch aelod perthnasol o staff ei lofnodi.

'Cadarnhaf fod xxx yn gorff proffesiynol ac yn gorff dyfarnu cydnabyddedig. Mae gennym bolisi gwrthdaro buddiannau ac rydym yn cymryd gofal i gynnal rhaniadau rhwng unrhyw weithgarwch corff dyfarnu a'n gweithgarwch corff proffesiynol.

Nid yw'r corff proffesiynol yn chwarae unrhyw ran uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu na dyfarnu ein cymwysterau.

Llofnodwyd

Dyddiedig

Datblygu Polisi Dynodi

Ar yr un pryd â datblygu ein Rheolau am Geisiadau i Ddynodi, rydym yn datblygu Polisi Dynodi. Ein nod yw cyhoeddi'r polisi hwn maes o law. Ein nod yw y bydd y polisi yn esbonio sut y byddwn yn arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â dynodi cymwysterau.

Gweler isod grynodeb o'r materion rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein polisi a fydd yn llywio ein penderfyniad i ddynodi math o gymhwyster, sy'n cael ei ddarparu yma i gefnogi ein hymarfer ymgysylltu ar y Rheolau am Geisiadau i Ddynodi.

Materion rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein polisi a fydd yn llywio ein penderfyniad i ddynodi math o gymhwyster

Rydym yn cynnig y byddwn ond yn dynodi math o gymhwyster corff dyfarnu cydnabyddedig pan fyddwn yn fodlon bod y gofynion canlynol wedi'u bodloni:

i. byddai'n briodol i gwrs addysg neu hyfforddiant sy'n arwain i'r cymhwyster hwnnw, ac sy'n cael ei ddarparu neu y cynigir y caiff ei ddarparu gan ysgol neu sefydliad neu gyflogwr neu ar eu rhan, ei ariannu'n gyhoeddus.

ii. mae'n briodol ar hyn o bryd i ni ddynodi'r cymhwyster, yn hytrach na chyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar ei gyfer;

iii. mae'r cymhwyster yn berthnasol i gyd-destun polisi sefydliadol a chyhoeddus Cymru;

iv. mae'r cymhwyster yn briodol ar gyfer ystodau oedran ymgeiswyr posibl. Yn arbennig, os caiff y cymhwyster ei ddyfarnu'n bennaf i gwrs addysg neu hyfforddiant a astudir fel arfer gan ddysgwyr cyn 16 oed, ni ddylai'r cymhwyster dystio cymhwysedd galwedigaethol na chanolbwyntio ar alwedigaethau penodol;

v. nid yw'r cymhwyster wedi'i gynnwys ar ein Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ar hyn o bryd;

vi. nid yw'r cymhwyster yr un peth â chymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gennym ar hyn o bryd neu y mae gennym feini prawf cymeradwyo cyhoeddedig

ar ei gyfer, neu'n debyg iddo. Wrth benderfynu ar hyn, gallwn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i hyn:

I. Maes sector pwnc
II. Diben ac unrhyw is-ddiben
III. Cynulleidfa (ystodau oedran a lefelau)

Dirymu dynodiad

Wrth benderfynu p'un a ddylid dirymu dynodiad, rydym yn cynnig ystyried y materion canlynol:

i. p'un a ydym yn darganfod, ar ôl dechrau'r dynodiad, fod cymhwyster dynodedig yr un peth â chymhwyster rydym wedi'i gymeradwyo eisoes neu'n debyg iddo, neu sydd wedi'i restru ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol;
ii. p'un a yw'r cymhwyster dynodedig yr un peth â chymhwyster rydym wedi'i gymeradwyo ers y dyddiad gwreiddiol pan wnaethom ddynodi'r cymhwyster (er enghraifft pan fyddwn yn ceisio cyfyngu ar gymwysterau) neu'n debyg iddo;
iii. p'un a ydym o'r farn bod corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol ac rydym wedi tynnu ei gydnabyddiaeth yn ôl; neu
iv. p'un a yw gofynion sgiliau mewn sector cyflogaeth perthnasol wedi newid yn sylweddol ers y dyddiad dynodi, fel y bydd yn effeithio'n negyddol ar werth y cymhwyster i ddefnyddwyr.